# CABINET

## COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD YN NHŶ PENALLTA, TREDOMEN AR DDYDD MERCHER, 1AF TACHWEDD 2017 AM 2.00PM

YN BRESENNOL

Y Cynghorydd D.V. Poole - Cadeirydd

Cynghorwyr:-

C.J. Cuss (Gofal Cymdeithasol a Lles), N. George (Gwasanaethau'r Gymdogaeth), C.J. Gordon (Gwasanaethau Corfforaethol), Mrs B.A. Jones (Cyllid, Perfformiad a Llywodraethu), S. Morgan (Economi, Isadeiledd a Chynaliadwyedd), L. Phipps (Cartrefi a Lleoedd) a Mrs E. Stenner (Yr Amgylchedd a Diogelwch y Cyhoedd).

Ar y cyd gyda:

C. Burns (Prif Weithredwr Dros Dro), a C. Harrhy (Cyfarwyddwraig Corfforaethol Cymunedau),
D. Street (Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol), S. Harris (Pennaeth Cyllid Corfforaethol Dros Dro)

Hefyd yn Bresennol:

P. Lewis (Pennaeth TG Dros Dro), R. Hartshorn (Pennaeth Diogelwch y Cyhoedd), S. Couzens
(Prif Swyddog Tai), M. Williams (Pennaeth Eiddo Dros Dro), H. Morgan (Uwch Glerc y Pwyllgor)

Swyddfa Archwilio Cymru - Non Jenkins a Ron Price

### 1. YMDDIHEURIADAU DROS ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan Mrs P.A.Marsden (Addysg a Chyflawniad) a N. Scammell (Cyfarwyddwraig Gwasanaethau Corfforaethol Dros Dro a Swyddog Adran 151)

### 2. DATGANIADAU O DDIDDORDEB

Fe wnaeth y Cynghorydd Mrs B. Jones ddatgan diddordeb yn yr adroddiad gyda'r teitl Adolygiad Swyddfa Archwilio Cymru o Raglen Darparu SATC. Mae manylion wedi eu cofnodi gyda'r eitem berthnasol.

## 3. CABINET - 18FED HYDREF 2017

PENDERFYNWYD cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 18fed Hydref 2017 (rhifau cofnod. 1 - 7) a'u llofnodi fel cofnod cywir.

## MATERION SYDD ANGEN PENDERFYNIADAU GWEITHREDOL

## 4. ADOLYGIAD SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU O'R RHAGLEN DARPARU SATC

Fe wnaeth y Cynghorydd Mrs B. Jones ddatgan diddordeb yn yr eitem hon (o ran buddio o'r rhaglen) a gadawodd y cyfarfod yn ystod yr ystyriaeth am yr eitem hon.

Mynychodd N. Jenkins a R. Price y cyfarfod i gyflwyno eu darganfyddiadau, casgliadau a chynigion am welliant fel y manylir o fewn y ddogfen. Fel rhan o berfformiad cynllun archwiliad Swyddfa Archwilio Cymru, roedd yr adroddiad yn darparu adolygiad o drefniadau'r Cyngor i ddarparu'r SATC erbyn 2020.

Tynnodd N. Jenkins sylw at y materion allweddol yn yr adroddiad a chyfeiriodd at gwmpas yr adolygiad, y cyfweliadau a'r dystiolaeth a gasglwyd gan Swyddogion, tenantiaid a lesddalwyr, y casgliadau a luniwyd a'r argymhellion statudol dilynol (a ddilynir i sicrhau eu bod yn cael sylw).

Cynghorydd y Cyfarwyddwr Corfforaethol, er bod Swyddogion yn derbyn yr argymhellion yn yr adroddiad, nad ydynt yn cytuno â'r casgliad cyffredinol a wnaed, gan nad yw'n adlewyrchu sefyllfa'r rhaglen a bod tystiolaeth i gyfiawnhau'r farn hon yn cael ei darparu drwy gydol yr adroddiad a thrafodwyd yn y cyfarfod. Roedd yr adroddiad hefyd yn gosod argymhellion unigol sy'n dilyn yr adolygiad ynghyd â sylwadau'r Swyddogion ar sut y mae'r argymhellion hyn wedi neu sut fydd yn mynd i'r afael â hwy.

Cadarnhwyd bod y rhaglen wedi ei seilio ar yr arolwg amod stociau a chostau cydrannau amcangyfrifedig a ddarperir gan Savill's Consultants yn dilyn arolwg o 15% o'r stoc tai. Ers yr amser hynny, cafodd ymarfer er mwyn sefydlu'r cwmpas llawn o fuddsoddiad sydd ei angen er mwyn cwrdd â SATC erbyn 2020, sy'n seiliedig ar wybodaeth gywir a chynhwysfawr ei gwblhau. Ar adeg paratoi'r archwiliad, cafodd gwaith ei wneud er mwyn defnyddio'r data hyn i ailbroffilio'r rhaglen gan ddefnyddio'r gwir gost. Mae hyn nawr wedi cael ei gwblhau ac mae'r rhaglen yn aros yn ymarferol yn ariannol. Mae'r wybodaeth hefyd wedi cael ei defnyddio i gasglu rhaglen bontio fwy manwl ond nid yw'r amserlen a osodir yn y rhaglen bresennol wedi newid.

Yn ymwneud â'r strategaeth gaffaeliad, nodwyd bod hon wedi cael ei datblygu i gwrdd â gwelliannau Llywodraeth Cymru a thargedau effeithlonrwydd. Mae contractau gwaith mewnol yn cael eu priodoli ar sail contract sefydlog gan ddefnyddio'r ffurflen JCT o gontract ac atodlen genedlaethol o gyfraddau (a adolygir yn flynyddol) a datblygwyd gwaith allanol drwy wahanol lwybrau caffael yn unol â deddfwriaeth ac er mwyn rheoli'r sylfaen gyflenwi, sicrhau gallu ac annog a thyfu contractwyr lleol. Rheolir hyn drwy gyfres o drefniadau a oedd yn cynnwys y defnydd o eithriad gwerth bach, fframweithiau ac yn fwy diweddar "Dynamic Purchasing System" (DPS).

Mewn perthynas â'r gofyniad i ddarparu gwybodaeth glir a thryloyw i aelodau a thenantiaid am sefyllfa bresennol y rhaglen, mae Swyddogion wedi ystyried y gellir gwella'r wybodaeth a ddarperir a derbyn y modd y cyflwynir y wybodaeth . Fel rhan o'r ymarfer, mae Swyddogion wedi adolygu'r wybodaeth a gynhwysir o fewn y rhaglen ac wedi gwneud newidiadau yn barod er mwyn sicrhau ei fod yn glir, cywir ac ystyrlon i'r holl rhanddeiliaid.

O ran rheoli rhaglenni, llywodraethu ac atebolrwydd, mae'r cyfrifoldebau hyn yn cael eu

diffinio drwy Fwrdd SATC, Grŵp Gorchwyl Cartrefi Caerffili, y Grŵp Atgyweirio a Gwella, y Tîm Rheoli Corfforaethol, y Pwyllgor Craffu Polisi ac Adnoddau a'r Cabinet. Bydd cylch gorchwyl pob un o'r grwpiau hyn yn cael ei adolygu i sicrhau bod y grwpiau priodol yn glir ynglŷn â'u cylch gwaith a'u pwrpas yn ogystal â sicrhau y gellir cymryd unrhyw benderfyniadau brys sy'n ofynnol ar y lefel briodol.

Daeth adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru i'r casgliad, oherwydd natur ddarniog y dogfennau yn nodi'r rhaglen ailbroffilio o waith, nad oedd yn credu eu bod yn darparu dull strategol, cynhwysfawr ac integredig sy'n nodi'n eglur i denantiaid, cynghorwyr, swyddogion a rhanddeiliaid eraill sut y bydd yn cyfarfod SATC erbyn 2020. Er mwyn esbonio, cynghorodd R. Price ei fod wedi bod yn anodd olrhain penderfyniadau ar ailbroffilio ac ailraglenni. Cadarnhawyd bod y wybodaeth a gynhwyswyd yn yr adroddiadau hefyd wedi cael ei hadolygu i sicrhau eu bod yn cael eu cyflwyno mewn modd clir a thryloyw ac yn cynnwys yr holl fanylion perthnasol fel y gellir cyfathrebu sefyllfa gyfredol y rhaglen gyffredinol yn hawdd i'r holl randdeiliaid. Cafodd effeithiolrwydd y Swyddogion Cyswllt Tenantiaid hefyd ei godi ac fe wnaeth Prif Swyddog Tai egluro eu rôl fel Swyddogion cymorth.

Cyfeiriwyd hefyd at argymhelliad 3 lle dylai'r cyngor sicrhau bod ganddo ddigon o gapasiti rheoli prosiect i gyflwyno rhaglen SATC y Cyngor yn effeithiol erbyn 2020. Er mwyn cynorthwyo gyda'r broses o reoli prosiect fuddsoddi o'r fath, mae'r defnydd o adnoddau yn cael ei wneud yn fawr drwy integreiddio gwell o fewn Cartrefi Caerffili yn dilyn newidiadau yn y strwythur rheoli'r flwyddyn ddiwethaf a thrwy hefyd ddefnyddio gwasanaethau adrannau eraill o fewn y Cyngor, gan gynnwys Ymgynghoriaeth Adeiladu, Cynnal a Chadw Tiroedd, Grŵp Gweithrediadau Priffyrdd a Rhwydwaith Gwasanaethau Contractio.

Yn ystod y drafodaeth ddilynol, mynegwyd pryderon bod yr adroddiad yn adlewyrchu'r eiddo hynny a gwblhawyd yn unig a dim yn adlewyrchu'r dull sy’n seiliedig ar y gymuned a fabwysiadwyd lle mae gwaith mewnol ac allanol yn cael ei wneud ar yr un pryd mewn gwahanol gymunedau. Cymerwyd y penderfyniad hwn i sicrhau bod pob cymuned dai yn elwa ar waith y SATC yn gynharach yn y rhaglen yn hytrach na chanolbwyntio ar gwblhau'r holl waith SATC mewn un gymuned ar y tro. Oherwydd hyn, mae'r wybodaeth a gynhwysir yn yr adroddiad yn gamarweiniol ac nid yw'r data perfformiad cymharol ag awdurdodau eraill, er ei fod yn ffeithiol mewn perthynas â nifer yr eiddo a gwblhawyd, yn ddarlun cywir o'r gwaith a gwblhawyd hyd yn hyn gan nad yw'n un dull o fesur ac nid yw'n cario cafeat i egluro sut mae gwaith yn yr awdurdodau hynny yn cael ei raglennu. Hyd yn hyd, mae 85% o eiddo ar draws y fwrdeistref sirol wedi derbyn naill ai gwaith mewnol neu allanol.

O safbwynt y barnau a fynegwyd gan denantiaid fel y nodwyd yn yr adroddiad, cynghorodd R. Price, o ystyried y cyfyngiadau amser, mai dim ond gyda 6 tenant sy'n eistedd ar Grŵp Gorchwyl Cartrefi Caerffili y cynhaliwyd cyfweliadau. Fe wnaethant hefyd fynegi pryderon am ansawdd y gwaith a wnaed. Cytunodd y Cabinet nad oedd hyn yn gynrychiadol o’r nifer o denantiaid ar draws y fwrdeistref y gellir seilio’r casgliad a’r argymhellion dilynol ac y dylai ymchwil pellach fod wedi cael ei wneud. Mae canlyniadau arolwg boddhad tenantiaid yn dangos ar gyfer gweithfeydd mewnol ar gyfer y cytundeb cyfan hyd yma, bod 89% o denantiaid yn fodlon iawn neu’n fodlon, bod 5% naill ai’n fodlon neu’n anfodlon a bod 6% yn anfodlon neu’n anfodlon iawn. Oherwydd hyn, nid oedd y data o fewn adroddiad y Swyddfa Archwilio Cymru yn cael eu gweld fel eu bod yn adlewyrchu’r holl farnau ac ni ystyriwyd y wybodaeth hon. Cynghorwyd R. Price y byddai hyn yn cael ei ystyried pan fydd yr adroddiad dilynol yn cael ei baratoi gyda mwy o gyfweliadau gyda rhanddeiliaid.

Cynghorodd y Prif Weithredwr Dros Dro y dylai’r Swyddogion dderbyn bod angen gwneud gwelliant pellach a chytuno gydag argymhellion a osodwyd gan Swyddfa Archwilio Cymru. Mae'r gwelliannau a nodwyd yn cael eu cyflwyno yn unol â'r cynllun gweithredu a nodir yn yr atodiad i'r adroddiad a bydd cynnydd ar y cynllun gweithredu yn cael ei fonitro bob mis

gan Fwrdd Prosiect Cartrefi Caerffili. Derbynnir bod yr argymhellion yn dilyn yr adolygiad yn ystod mis Mawrth/Ebrill 2017, ond ar yr adeg honno roedd newidiadau sylweddol eisoes yn y broses o gael eu gwneud a dangosir hyn yn y cynllun gweithredu gyda llawer o dasgau wedi'u cwblhau eisoes. Nid yw'r swyddogion yn cytuno gyda'r casgliad cyffredinol a ddaethant iddo oherwydd teimlir nad yw'r datganiad hwn yn cynnig asesiad teg o safle'r rhaglen. Roedd yr adroddiad yn darparu gwybodaeth i gefnogi'r farn hon, a chafodd manylion eu hamlygu yn y cyfarfod.

Wrth dderbyn bod cwblhau'r rhaglen erbyn 2020 yn heriol yn seiliedig ar y sefyllfa bresennol a'r rhagamcaniadau a ragwelir, disgwylir i 75% o waith mewnol a 40% o waith allanol gael eu cwblhau erbyn Mawrth 2018. Erbyn Mawrth 2019, disgwylir i 94% o waith mewnol gael eu cwblhau ac 80% o waith allanol. Mae cynllun ac adnoddau mewn lle i gwblhau'r rhaglen erbyn 2020. Mae swyddogion yn ystyried bod y mesurau a osodwyd wedi cynyddu yn arwyddocaol y gyfradd cwblhau ac maent yn hyderus y bydd y rhaglen wedi cael ei chwblhau erbyn 2020.

Yn dilyn dadl fanwl ar gynnwys Adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru, ac wrth nodi bod nifer o gasgliadau wedi'u llunio yn seiliedig ar ymgynghori â 6 aelod o Grŵp Gorchwyl Cartrefi Caerffili ac nad yw'n adlewyrchu'n gywir y sefyllfa yn hynny ar y amser a'r ffordd y cwblhawyd y gwaith mewnol ac allanol, cynigiwyd ac eiliwyd y dylid nodi'r argymhellion ynddo. Cytunwyd ar hyn yn unfrydol drwy godi dwylo.

PENDERFYNWYD ;

(i) yn dilyn dadl fanwl ar gynnwys Adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru, dylid nodi ei gynnwys a'r argymhellion ynddo;

(ii) fel y manylir yn adroddiad y Swyddogion, yr ymateb i Adroddiad Archwilio Cymru, sy'n mynd i'r afael â'i gynnwys, y materion a godwyd a'r cynigion ar gyfer gwelliant fel y'i nodir ynddo yn cael eu cymeradwyo

Diolchodd y Cadeirydd i N. Jenkins a R. Price am gyflwyno'r adroddiad ac am ymateb i faterion a godwyd yn ystod y cwrs ar gyfer y ddadl a chroesawu'r adolygiad yn 2019.

## 5. ADRODDIAD GWELLA BLYNYDDOL 2016-17

Ystyriwyd yr adroddiad, a gyhoeddwyd ddiwedd mis Awst 2017 sy'n amlinellu'r negeseuon allweddol o Adroddiad Gwella Blynyddol Swyddfa Archwilio Cymru.

Rhoddodd N. Jenkins drosolwg o'r adroddiad sy'n gwneud dyfarniad ynghylch a ydym ni wedi ac yn debygol o gydymffurfio â'n dyletswydd statudol yn unol â Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 i 'wneud trefniadau i ddangos gwelliannau parhaus'. Cynghorodd fod y ddogfen yn crynhoi'r gwaith a wnaed gan Swyddfa Archwilio Cymru yn ystod 2016/17 ac mae'n rhoi barn y rheolyddion a fyddwn yn cydymffurfio â Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009.

Yn dilyn trafodaeth ar ei gynnwys, fe'i cynigiwyd ac eiliwyd bod canfyddiadau Swyddfa Archwilio Cymru '*Yn seiliedig ar, ac yn gyfyngedig ar y gwaith a wnaed gan Swyddfa Archwilio Cymru a rheolyddion perthnasol, mae'r Archwilydd Cyffredinol o'r farn bod y Cyngor yn debygol o gydymffurfio â gofynion Mesur Llywodraeth Leol (2009) yn ystod 2017-18 dim ond ei fod yn ymateb yn adeiladol ac mewn ffordd amserol i'n hargymhellion statudol" i gael ei nodi. Cytunwyd ar hyn yn unfrydol drwy godi dwylo.*

PENDERFYNWYD fod y darganfyddiadau o'r Swyddfa Archwilio Cymru yn cael eu nodi.

Diolchodd y Cadeirydd i N. Jenkins am gyflwyno’r adroddiad ac ymateb i’r materion a godwyd yn ystod y ddadl.

## 6. POLISI CLUDIANT A GYNORTHWYIR GAN Y GWASANAETHAU CYMDEITHASOL

Ystyriwyd yr adroddiad a gafodd ei gyflwyno i, a chefnogir gan Bwyllgor Craffu Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Llesiant ar y 24ain o Hydref 2017.

Cynghorodd Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol mai cludiant a gynorthwyir yw'r ddarpariaeth cludiant dewisol gan y gwasanaethau cymdeithasol i alluogi unigolion i gael mynediad i'r gwasanaeth cymorth cymunedol y cafodd unigolion eu hasesu fel rhai sy'n gymwys i fynychu (e.e. gwasanaethau dydd). Nod y polisi Cludiant a Gynorthwyir (fel y manylir yn yr atodiad i'r adroddiad) yw darparu fframwaith clir i ymarferwyr asesu a chefnogi unigolion i nodi dulliau o hyrwyddo annibyniaeth wrth gael mynediad at gludiant. Trwy nodi'r hyn sydd ar gael yn y gymuned leol, mae'n darparu dull cyson tuag at bennu cymhwyster ar gyfer cludiant a ariennir lle mae wedi'i nodi fel gofyniad i gael mynediad at wasanaethau a gomisiynir gan y Gwasanaethau Cymdeithasol. Cynigiwyd bod y polisi'n cael ei weithredu o 1af Ionawr 2018 ar gyfer pob cais newydd am gludiant a wneir i Wasanaethau Cymdeithasol Oedolion.

Yn ystod y ddadl, ac wrth nodi'r broses ymgeisio a'r apeliadau ac i fynd i'r afael ag unrhyw ymholiad ynghylch yr amser a gymerwyd i benderfynu ar gais, fe'i cynigwyd ac eiliwyd bod cynnwys y Polisi yn cael ei ddiwygio i fanylu'r broses asesu, terfynau amser ar gyfer penderfynu ar geisiadau a'r broses apelio a chael ystyriaeth bellach gan y Cabinet maes o law. Cytunwyd ar hyn yn unfrydol drwy godi dwylo.

> PENDERFYNWYD diwygio cynnwys y Polisi i roi manylion y broses asesu, terfynau amser ar gyfer penderfynu ceisiadau a'r broses apelio a'i fod yn cael ei ystyried ymhellach gan y Cabinet maes o law.

## 7 ADOLYGIADAU YN SEILIEDIG AR RISG LLEOL SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU: RHEOLI ASEDAU A RHEOLI GWYBODAETH A THECHNOLEG - CYNGOR BWRDEISTREF SIROL CAERFFILI

Ystyriwyd yr adroddiad a ddarparodd fanylion o’r adolygiad a gynhaliwyd gan Swyddfa Archwilio Cymru mewn perthynas â Rheoli Asedau a Rheoli Gwybodaeth a Thechnoleg.

Cynghorodd N. Jenkins nad oes gan adolygiad Swyddfa Archwilio Cymru unrhyw argymhellion statudol na chynigion ar gyfer gwelliant, ac maent yn cynnig gwaith pellach, yn enwedig yn ymwneud â’r Bwrdd Gwella Busnes.

Casgliad y ddogfen yw bod gan y Cyngor dealltwriaeth dda o’i asedau a threfniadau TG presennol ond nid oes dull strategol i gyfeirnodi eu defnydd. O ran Rheoli Gwybodaeth a Thechnoleg, nodwyd bod amrywiaeth o bolisïau, cynlluniau a phrosesau cysylltiedig ond nid oes strategaeth ddigidol gyffredinol i yrru gweithgareddau. Cydnabuwyd Swyddfa Archwilio Cymru bod y Cyngor ar hyn o bryd yn datblygu achos busnes amlinellol i ystyried p'un ai ymuno â'r Gwasanaeth Adnoddau a Rennir rhanbarthol ac felly byddai ystyriaeth yn cael ei gwneud i gyflawni gwaith mwy penodol, gan ganolbwyntio ar un ardal neu fwy fel rhan o raglen archwilio perfformiad 2017-18.

Mewn perthynas â rheoli asedau, casgliad yr adroddiad yw bod y Cyngor yn adnabod bod rôl allweddol ei asedau wedi helpu er mwyn darparu ei flaenoriaethau. Eglurwyd, o ganlyniad i dargedau arbedion anoddach a heriol, bod angen gwneud penderfyniadau ar

lefel a natur y gwasanaethau a fydd yn cynnwys rhai asedau mawr, mae gwaith yn cael ei wneud ar nifer o gynlluniau reoli asedau unigol ond nid oes cynlluniau mewn lle am nifer o feysydd gwasanaeth.

Daeth adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru i'r casgliad o'r adolygiadau cyfredol hyn, na fyddai o gymorth i gael cynllun rheoli asedau corfforaethol a chynlluniau rheoli asedau gwasanaeth ar gyfer y gwasanaethau hynny sy'n cael eu hadolygu ar hyn o bryd. Fodd bynnag, wrth i'r adolygiadau hyn gael eu cwblhau, bydd angen i'r Cyngor ystyried a ddylid diweddaru ei strategaeth rheoli asedau corfforaethol i ddarparu ar gyfer unrhyw faterion sy'n ymwneud ag asedau. Mae hefyd wedi dod i'r casgliad, o ganlyniad i'r canfyddiadau o nifer o adolygiadau dros y 12-18 mis diwethaf bod dim angen cynnal adolygiad manwl o effeithiolrwydd Bwrdd Gwella Busnes y Cyngor wrth ddarparu trosolwg strategol a chyfeiriad ar gyfer prosiectau gwella busnes allweddol y Cyngor.

Yn dilyn trafodaeth ar y cynnwys, cynigiwyd ac eiliwyd y dylai'r darganfyddiadau o Swyddfa Archwilio Cymru gael eu nodi. Cytunwyd ar hyn yn unfrydol drwy godi dwylo.

> PENDERFYNWYD y dylai'r darganfyddiadau Swyddfa Archwilio Cymru gael eu nodi.

Diolchodd y Cadeirydd i N. Jenkins am gyflwyno'r adroddiad ac ymateb i'r materion a godwyd yn ystod y ddadl.

Terfynwyd y cyfarfod am 4pm.

Cymeradwywyd a llofnodwyd fel cofnod cywir yn amodol ar unrhyw gywiriadau a wnaed yn y cyfarfod a gynhaliwyd ar y 15fed Tachwedd 2017.

_________________________

CADEIRYDD